

Gwybodaeth i Gleifion

Gofalu am y Geg ar ôl Llawdriniaeth

Llawdriniaeth y Genau a'r Geg

Cyfarwyddiadau ynghylch gofalu am y geg yn dilyn llawdriniaeth fel claf allanol....

1. **Peidiwch â rinsio'r geg am weddill y dydd** gall achosi'r soced i ddechrau gwaedu. Rhaid cadw'r geg yn lân a gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio dŵr hallt cynnes fel cegolch bob dwy awr. Defnyddiwch eich brws dannedd ar ôl bwyta.
2. **Gorffwyswch am weddill y diwrnod.** Yfwch dim ond diodydd di-alcoholig heb fod yn rhy boeth. Bwytwch fwyd meddal.
3. I ddod ag unrhyw waedu yn y geg i ben, pwyswch ar yr ardal gyda swabiau neu hances wedi'i phlygu. Brathwch arno am hanner awr.
4. **Cymrwch eich meddyginiaethau gwrthfotig os ydych wedi derbyn rhai ar bresgripsiwn** a sicrhewch eich bod yn gorffen y cwrs. Os bydd brech yn datblygu, neu os byddwch yn teimlo'n sâl, rhowch y gorau i'r tabledi a siaradwch â'ch meddyg eich hyn - neu gallwch gysylltu â ni ar y rhifau isod.
5. Bwytwch ac yfwch digon. **Mae prydau llaeth yn dda os oes angen bwyd rhannol solet.**
6. **Gyda rhai llawdriniaethau, bydd apwyntiad arall yn cael ei drefnu i chi.** Sicrhewch eich bod yn dod i hwn er mwyn i ni allu asesu'ch cynnydd yn briodol.
7. Mae'r pwythi (asiadau) yn toddi ar eu pennau eu hunain. Efallai y bydd angen 70 diwrnod cyn iddyn nhw doddi'n llwyr.

Cofiwch fod Tîm Llawdriniaeth y Genau a'r Geg yma i'ch helpu.

Os oes gennych chi unrhyw broblemau, ffoniwch y canlynol:- 01633 – 238372 neu Uwch-swyddog Iechyd y Genau a'r Geg y tu allan i oriau ar:- 01633 - 234234

Enw'r Claf:-

Rhif:-

Apwyntiad/au

Dyddiad:-

Amser:-

Blwyddyn:-

Dyddiad:-

Amser:-

Blwyddyn:-

Nodiadau neu gyfarwyddiadau pellach:-

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**